TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

AAT Uned Prosesau Treth i Fusnesau Lefel 3

Yn gryno

Mae Diploma Lefel 3 AAT mewn Cyfrifeg yn cynnig hyfforddiant technegol mewn cyfrifeg ac mae'n ddelfrydol i unrhyw un sy'n dymuno dilyn gyrfa mewn cyfrifeg cyllid.

Yr uned yr ydych yn ei phrynu yma yw uned Prosesau Treth i Fusnesau y Diploma Lefel 3 AAT mewn Cyfrifeg.

Bydd yr uned hon yn archwilio prosesau treth sy'n dylanwadu ar weithrediadau beunyddiol busnesau ac mae wedi'i chynllunio i ddatblygu sgiliau myfyrwyr o ran deall, paratoi a chyflwyno ffurflenni Treth ar Werth (TAW) i Gyllid a Thollau EM (CThEM). Bydd yr uned yn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i gadw busnesau, cyflogwyr a chleientiaid yn cydymffurfio â deddfau ac arferion sy'n berthnasol i TAW a chyflogres. Byddwch yn dysgu am ddeddfwriaeth a phwysigrwydd cynnal eu gwybodaeth dechnegol drwy fonitro diweddariadau.

Ar gyfer TAW, bydd myfyrwyr yn deall y rheolau cofrestru a dadgofrestru, gan gynnwys cofrestru ar gyfer Gwneud Treth yn Ddigidol (MTD), a'r rheolau sy'n ymwneud â chynlluniau TAW arbenigol. Byddwch yn gallu adnabod gwahanol fathau o gyflenwadau a chyfrifo TAW yn gywir, gan ddeall pwysigrwydd y rheolau sy'n ymwneud ag adfer TAW mewnbwn a'r

sancsiynau a'r cosbau am anghywirdebau, hepgoriadau a methu â gwneud cyflwyniadau a thaliadau o fewn yr amserlenni cywir. Byddwch yn gallu gwirio cywirdeb y cyfrifiadau, anfonebau a phwyntiau treth, a byddwch yn dysgu am gywiro gwallau. Wrth ddysgu am gynnwys y ffurflen TAW, byddwch yn dysgu sut i gymhwyso rheolau arbennig pan fydd nwyddau a gwasanaethau yn cael eu mewnforio a'u hallforio o'r DU a'r Undeb Ewropeaidd (UE), a sut i echdynnu'r data priodol i gwblhau ffurflenni TAW.

O ran y gyflogres, byddwch yn deall y prosesau ar gyfer busnesau sy'n ymwneud â chyfrifo tâl a didyniadau a chynnwys dogfennau ac adroddiadau a gynhyrchir ar feddalwedd, ynghyd â'r amserlenni ar gyfer cyflwyno a thalu.

Mae hwn yn gwrs 'rholio-ymlaen / rholio i ffwrdd' gyda dyddiadau cychwyn hyblyg. Rydym yn recriwtio myfyrwyr drwy gydol y flwyddyn.

Mae hwn hefyd yn gwrs dysgu cyfunol (cymysgedd o wyneb yn wyneb traddodiadol gydag athro mewn ystafell ddosbarth a gweithgareddau dysgu gan ddefnyddio technolegau digidol o gartref).

Mae'r cwrs hwn yn symud ymlaen o Ddiploma Sylfaen Lefel 2 AAT a bydd yn eich galluogi i ennill sgiliau pellach i symud ymlaen o fewn y maes cyfrifeg.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... Ydych wedi cwblhau Tystysgrif Sylfaen Lefel 2 AAT mewn Cyfrifeg

... Ydych am ddatblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth ym maes cyfrifeg

... Ydych am weithio mewn lleoliad cyfrifeg

Cynnwys y cwrs

Byddwch yn gwella ar y sgiliau a wnaethoch eu datblygu o Dystysgrif Lefel 2 mewn Cyfrifeg ac yn ennill amrywiaeth o sgiliau cyfrifyddu hanfodol a chymhleth, gan gynnwys cynnal cofnodion cyfrifyddu costau a pharatoi adroddiadau a ffurflenni.

Mae'r Lefel 3 AAT mewn Cyfrifeg yn cynnwys pedair uned orfodol:

Ymwybyddiaeth Busnes – Byddwch yn dysgu am wahanol fathau o fusnesau, strwythurau, dulliau llywodraethu, a'r fframwaith cyfreithiol y maent yn gweithredu ynddo ac effaith yr

amgylchedd micro a macro-economaidd
Cyfrifeg Ariannol: Paratoi Datganiadau Ariannol* - Byddwch yn dysgu sut i gymhwyso'r egwyddorion o gadw cyfrifon cofnod dwbl uwch, caffael a gwaredu asedau anghyfredol. Byddwch yn paratoi cyfrifiadau dibrisiant, addasiadau diwedd cyfnod ac yn cynhyrchu balans prawf estynedig.
Technegau Cyfrifo Rheolaeth - Byddwch yn dod i ddeall y pwrpas a'r defnydd o gyfrifo rheolaeth ac yn dysgu'r technegau costio a thaenlen sy'n angenrheidiol ar gyfer sefydliadau, yn ogystal â'r egwyddorion y tu ôl i reoli arian parod.
Prosesau Treth ar gyfer Busnes* - Byddwch yn archwilio ac yn cymhwyso gofynion y ddeddfwriaeth ar TAW, yn cyfrifo TAW, yn adolygu a dilysu'r broses o wneud ffurflenni treth yn ddigidol (MTD), yn dod i ddeall egwyddorion y gyflogres, ac yn astudio'r goblygiadau o wneud gwallau, ffeilio a thalu'n hwyr, a sut i adrodd am wybodaeth sy'n ymwneud â TAW.

Trwy ymgweisio yma, rydych yn prynu modiwl Prosesau Treth ar gyfer Busnes.

Er mwyn ennill y cymhwyster Lefel 3 mewn Cyfrifeg, bydd angen i chi gwblhau pob un o'r pedwar modiwl uchod, gallwch brynu pob modiwl ar wahân.

*Er mwyn ennill y cymhwyster Lefel 3 mewn Cadw Cyfrifon, bydd angen i chi gwblhau'r ddau fodiwl gyda *, gallwch brynu pob modiwl ar wahân.

Gofynion Mynediad

Tystysgrif Lefel 2 mewn Cyfrifeg

neu

Cyfweliad gyda'r tiwtor os nad oes gennych yr uchod

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd y cwrs nos yn cael ei amserlennu fel y ganlyn:

Bydd y cwrs nos Fawrth wyneb I wyneb ar y campws ar dydd Mawrth 5yp tan 9yp.

Bydd gofyn i chi gwblhau gweddill y cwrs bob wythnos ar-lein yn eich amser hun ar blatfform

ar-lein Kaplan fel y cyfarwyddir gan eich tiwtor.

Bydd deunyddiau y cwrs prynhawn yn costi £50 y modiwl, cyfanswm o £200 ar gyfer y cymhwyster llawn.

Bydd y cwrs dydd yn cael ei amserlennu fel y ganlyn:

Bydd y cwrs dydd Llun yn wyneb wyneb ar y campws ar ddydd Llun 9yb tan 16.45

Bydd deunyddiau'r cwrs hefyd rhwng £150 a £200 yn dibynnu ar y deunyddiau a ddewiswch.

Ar ôl cwblhau Lefel 3 mewn Cyfrifeg yn llwyddiannus, gallwch fynd ymlaen i Ddiploma Lefel 4 AAT mewn Cyfrifeg y gallwch ei wneud yn llawn amser neu'n rhan-amser yn Coleg Gwent. Ar ôl ei gwblhau gallwch ymgymryd â rôl mewn cyllid.

Costau eraill:

Llyfrau tua £30 y modiwl

Cofrestriad AAT (yn daladwy i AAT) £240